OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1989

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015

*Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol*

**Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin**

**5.**—(1) Rhaid i drefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau penodedig gael eu gwneud gan y cyrff a ganlyn—

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

(2) Rhaid i'r byrddau hyn, gyda'i gilydd, sefydlu bwrdd partneriaeth mewn cysylltiad â'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn, a'i enw fydd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

(3) Rhaid i'r trefniadau partneriaeth y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud gan y rheoliad hwn gael eu cyflawni o dan gyfarwyddyd bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin.